



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Tachwedd 2017 am 6.30yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 November 2017 at 6.30pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Clive Davies (*yn y gadair/in the chair*), Elaine Evans (*gadawodd/departed 7.30pm*), Graham Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Wyn Jones (*gadawodd/departed 8.00pm*), Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips, Shan Williams.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Yn absenoldeb y Maer a'r Dirprwy Faer, cadeiriwyd y cyfarfod gan y cyn-Faer, y Cyng. Clive Davies. Croesawodd bawb i'r cyfarfod a chyfeiriodd at farwolaeth y cyn-Faer, Mr Melfydd George. Cafodd ei ethol ar Gyngor Tref Aberteifi yn 2003 – a bu'n aelod gweithgar, ffyddlon a dibynadwy hyd ei ymddeoliad ym mis Mai eleni – cyfnod o bedair mlynedd ar ddeg. Bu'n Faer y dref yn 2007-08 a thra'n y swydd cynrychiolodd y dref ar daith i'r Wladfa yn Nhachwedd 2007. Cytunwyd bod y cyngor yn anfon cyfarchion o gydymdeimlad at ei weddw, Mrs Huldah George, a'r teulu yn eu profedigaeth.

In the absence of the Mayor and Deputy Mayor, the immediate past Mayor Cllr Clive Davies chaired the meeting. He welcomed all and referred to the passing of a past Mayor, Mr Melfydd George who was elected to Cardigan Town Council in 2003; he was an industrious, faithful and dependable member until his retirement in May of this year – a period of 13 years' service. Mr George was the Mayor during 2007-08 and during that year represented the town at the annual celebrations in Trevelin, Patagonia. Condolences were offered to his widow, Mrs Huldah George, and the family in their sad bereavement.

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllrs Richard Jones, John Adams-Lewis
(*dyletswyddau cymunedol/community duties*)

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gyngorwyr.

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein	Cynllunio / Planning A170970 (Hafan, Cnwcydintir)
-------------------------------	---

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 3 Hydref yn cynnwys y rhai mewn pwyllgor.
Confirmation of Minutes of 3 October Council Meeting including in committee minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Debra Griffiths ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod cofnodion cyfarfod 3 Hydref yn gywir.

Cllr Debra Griffiths proposed that the 3 October council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Graham Evans.

Cynigiwyd gan y Cyng. Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths bod cofnodion mewn pwyllgor cyfarfod 3 Hydref yn gywir.

Cllr Shan Williams proposed that the 3 October in committee minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Debra Griffiths.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1285, eitem 10[127]: Mae cadwyni'r senotaff wedi eu cywiro ers 3 Tachwedd.

Page 1285, item 10[127]: The chains surrounding the cenotaph were repaired on 3 November.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Bu'r digwyddiad Calan Gaeaf ym Mharc Natur Aberteifi yn llwyddiannus dros ben gyda nifer fawr o drigolion yn manteisio ar y cyfle i fwynhau noson o hwyl a sbri

Fe agorwyd Clwb Croquet Gwberrt yn swyddogol gan y Maer.

The Halloween event at Cardigan Wildlife Park was most successful with over 300 participants enjoying the experience.

The Gwberrt Croquet Club was officially opened by the Mayor.

7. Cynllunio / Planning:

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
A170952	Plot adjacent to Llynfelin, Gwberrt Road	<i>Amrywio amodau 2 (cynlluniau a gymeradwywyd), 3 (ni chaiff cerbydau eu storio ar y safle) a 7 (deunyddiau drysau) ar ganiatâd cynllunio A170206 (codi garej unllawr domestig).</i> Variation of conditions 2 (approved plans), 3 (no vehicles shall be stored on site) and 7 (materials of doors) on planning permission A170206 (erection of single storey domestic garage).	<i>Mae angen rhagor o wybodaeth am uchder yr adeilad.</i> More information is required as to the overall height of the structure.
A170977	Plot 5 Gotrel Farm, Ferwig Road	<i>Codi tŷ.</i> Erection of a dwelling.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application. It is assumed that the county council will ensure that a footway will be developed on completion of site development.
A170970	Hafan, Cnwcydintir	<i>Dymchwel y garej bresennol a chodi rhandy.</i> Demolition of existing garage and erection of granny annexe.	<i>Nid oes gan y cyngor unrhyw wrthwynebiad.</i> The council has no objection.
A171005	Glebelands market Garden, St Dogmaels Road	<i>Amrywio amod 9 o ganiatâd cynllunio A160478 (gwrychoedd).</i> Variation of condition 9 of planning permission A160478 (hedge-bank).	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais ar yr amod bod clawdd parhaol yn cael ei blannu cyn Gwanwyn 2018.</i> The council supports the application with the condition that planting of a permanent hedge is in place by Spring 2018.

8. Materion ariannol / Financial matters:

Biliau i'w talu / Bills to be paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhify Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
6/10/17	Teifi Installations: <i>Gwaith ar Gae Chwarae Pentop.</i> Work carried out at the Pentop Playing Field.	C12	4462	£2,400 (400.00)
17/10/17	Poppit Sands Lifesaving Club: <i>Ailgyflwyno siec goll.</i> Repayment of lost cheque (No. 4392, 20/4/17)	D3	4463	£350.00 (0.00)
27/9/17	Siop Gelf y Wiber: <i>Deunydd at welliannau i furlun Ystafell Radley.</i> Materials for restoring the Ystafell Radley mural.	B8	4464	£75.50 (12.58)
17/10/17	Welsh Hearts / <i>Calonnau Cymru: Dau ddibriffiliwr /</i> Two defibrillators (<i>Cronfa'r Maer /</i> Mayor's Fund <i>y Cyng. /</i> Cllr Clive Davies, 2016-17)		<i>Wedi ei dalu o Gronfa'r Maer.</i> Paid from Mayor's Fund	£2,000.00 (0.00)

1/11/17	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Hydref / October).</i> <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (3, 17 & 19 Hydref / October)</i> <i>(10 Hydref / October: Cyf. Sul y Cadoediad/Pre-Remembrance Day meeting) (11 Hydref / October: Cyfarfod Blynyddol Elusen Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed / King George 5th Playing Field Charity AGM)</i> <i>Band Lydan (Tachwedd) / Broadband (November)</i>	A9 A9 A23 C3 A20	D/D 4465 4465 4465 4465	£250.00 (0.00) £75.00 (0.00) £25.00 (0.00) £25.00 (0.00) £20.00 (0.00)
19/10/17	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (3/10/17)</i>	A18	4466	£70.80 (0.00)
31/10/17	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Hydref / October)</i>	A3	4467	£756.36 (0.00)
19/10/17	David Evans & Sons: <i>Ysgythru plâc / Engraving plaque for shield presented to Ms Lisa Hellier</i>	B5	4468	£20.00 (3.33)
17/10/17	<i>Swyddfa Archwilio Cymru: Archwiliad o gyfrifon 2016-17. Wales Audit Office: Audit of 2016-17 accounts</i>	A13	4469	£231.00 (0.00)
7/10/17	Midshire: <i>Ôl-daliad cyfrif (cyfanswm £831.63+ VAT) 6 monthly instalments of £166.33 (incl. VAT) back payment (2nd instalment)</i>	A17	4470	£166.33 (27.72)
20/11/17	Newsquest: <i>Hysbyseb Cyfarfod Blynyddol Elusen Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed. Advert for King George 5th Playing Field Charity AGM</i>	C3	4471	£74.88 (12.48)
20/10/17	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council: Ffi am gau'r ffordd i Sul y Cadoediad. Road closure fee for the Remembrance Day service.</i>	A23	4472	£37.00 (0.00)
17/10/17	Society of Local Council Clerks: <i>Aelodaeth 2017 Membership</i>	A12	4473	£139.00 (0.00)
17/10/17	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council: Trwydded Deddf Hapchwarae 2005 Gambling Act licence</i>	A22	4474	£20.00 (0.00)
28/9/17	Jewson: <i>Deunydd at welliannau i furlun Ystafell Radley. Materials for restoring the Ystafell Radley mural.</i>	B8	4475	£45.91 (7.65) £28.01 (4.67)
6/11/17	Mr John Morris: <i>Gofal am flodau Gerddi Victoria / Maintenance and planting of winter flowers in Victoria Gardens.</i>	C1	4476	£1,140.00 (190.00)
31/10/17	<i>Bachan Deche / Handyperson: (Hydref / October)</i>	A19	4477	£283.80 (47.30)

Cynigiodd y Cyng. Shan Williams bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan.

CLLr Shan Williams proposed that the above bills be paid; this was seconded by CLLr Steffan Morgan.

Derbyniadau/Receipts:

11/9/17	<i>Llog y Banc / Bank interest</i>	£2.74
4/10/17	<i>Hurio'r offer cyfieithu / Hire of translating equipment: Heddlu Dyfed-Powys Police (£25 x 2)</i>	£50.00
13/10/17	<i>Gwesteion personol y Maer (Seremoni Sefydli) Mayor's personal guests (Mayor Installation)</i>	£283.33
	<i>Welch & Co: Ad-daliad / Repayment of Land Registry fee</i>	£3.00
13/10/17	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council: Grant: Pentop</i>	£940.00
7/11/17	<i>Cyngor Sir Ceredigion County Council: Ail randal y Praesept 2nd instalment of Precept</i>	£27,998.49

9. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Cyhoeddodd y Cyng. Miles bod Cabinet Ceredigion wedi penderfynu heddiw bod Cartref Preswyl Bodlondeb i gau. Nid oes fygythiad i gartrefi eraill yng Ngheredigion; mae cynllun ar y gweill i wella cyfleusterau ynddynt.
- (ii) Mae angen archwilio goleuadau strydoedd y dref gan fod ardaloedd heb lampau megis o Heol y Coleg draw ar hyd y Mwldan Isaf a hefyd Grove Park.
- (iii) Daeth yn amser eto i gynnig argymhellion a gwelliannau am fannau parcio yn y dref.

(b) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) Ategodd y Cyng. Evans sylwadau'r Cyng. Miles ynglŷn â phryderon parcio yn y dref gan wyntyllu'r broblem sydd yn arbennig ger stad Maes-yr haf.
- (ii) Mae'r Cyng. Evans yn parhau i wneud ymholiadau ynglŷn â datblygu'r dref i fod yn gyfeillgar i bobl sy'n dioddef o *autism*.

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis (in absentia):

- (i) Ymddiheuriad am fod y Cyng. Adams-Lewis yn cadeirio cyfarfod Cyngor Eglwysi Rhyddion Aberteifi a'r Cylch. Bydd yn llywyddu yng Nghapel y Tabernacl, 7/11/17 am 7.00yh pryd y ceir anerchiad gan Mr Emyr Llewelyn.
- (ii) Yng nghyfarfod Pwyllgor Brioude y mis ddiwethaf, penderfynwyd y dylai Cyngor Tref Aberteifi fod yn gyfrifol am edrych ar ôl y llechen a'r plac sydd ar fur Gardd Brioude tra bo'r gwaith atgyweirio ar y safle yn mynd yn ei flaen. Penderfynwyd bod y cyngor yn cymryd gofal am y llechen a'r plac: cynigiwyd gan y Cyng. Trystan Phillips ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths.

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles reported that the Ceredigion Cabinet had agreed this morning to close the Bodlondeb Home for the elderly near Aberystwyth. Other similar homes in Ceredigion are not under threat of closure; plans to improve facilities are afoot.
- (ii) Inspection of street lights in Cardigan is required as some areas are completely in the dark, i.e. the area from College Row to the Lower Mwldan and also Grove Park.
- (iii) It is time for recommendations for improved parking places in the town to be submitted to the authority in Aberaeron.

(b) Cllr Elaine Evans:

- (i) Cllr Evans reiterated Cllr Miles' statement regarding parking improvements; mention was made especially of the congestion at Maes-yr haf.
- (ii) Consultations are continuing to establish Cardigan as an autism-friendly town.

(c) Cllr John Adams-Lewis (in absentia):

- (i) Apology from Cllr Adams-Lewis due to his duties as chairperson of the Cardigan and District Free Churches Council: a lecture with Mr Emyr Llewelyn will take place at Tabernacl Chapel on 7 November at 7.00pm.
- (ii) At a recent Brioude Committee meeting it was agreed that Cardigan Town Council be responsible for the slate and plaque which are sited on the Brioude Garden wall whilst reconstruction work is taking place. The original stainless-steel plaque was inadvertently mislaid when work was previously done on the site, resulting in having a replacement plaque produced at a cost of £128. It was resolved that the town council would take responsibility for the slate and plaque; proposed by Cllr Trystan Phillips and seconded by Cllr Debra Griffiths.

10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
154	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Cais am gymorth ariannol Cae Chwarae Pentop.</i> Financial assistance for the Pentop Play Area	<i>Mae'r Cyng. Catrin Miles wedi delio gyda'r mater.</i> Cllr Catrin Miles has dealt with the final instalment from the county council (see <i>Receipts</i> above).
155	CSC / CCC (Louise Zerk): <i>Cau ffordd dros dro.</i> Temporary road closure / Pwllhai, 23-24/10/17, <i>gwaith gwasanaeth dŵr / water service works.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 9/10/17.

156	CSC / CCC (Mererid Jones): <i>Ymgynghoriad Cyhoeddus i Newidiadau Arfaethedig i'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff.</i> Public Consultation on Proposed Changes to the Waste Collection Service. <i>Dyddiad cau / closing date: 22/12/17</i>	<i>Mae'r arolwg ar gael:</i> This survey is available at: www.ceredigion.gov.uk/consultations . <i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 31/10/17. <i>Anogwyd yr aelodau i lanw'r holiadur.</i> Members were earnestly requested to complete the questionnaire.
157	CSC / CCC (Mererid Jones): <i>Penderfynu dyddiad a lleoliad i'r cerbyd Sesiynau Galw Heibio (prosiect ymgysylltu gwastraff).</i> Decision on date and location to site the vehicle to publicise the waste project consultation.	<i>Awgrymwyd bod y cerbyd yn cael ei leoeli tu allan i'r Factory Shop naill ai ar 2/12/17 neu 8/12/17.</i> It was suggested that the vehicle be parked outside the Factory Shop either on 2/12/17 or 8/12/17.
158	CSC / CCC (Eifion Evans): <i>Hysbysiadau Cyhoeddus Gorymdaith Sul y Cofio.</i> Public Notices for the Remembrance Sunday parade, 12/11/17.	<i>Mae'r ffurflenni wedi eu cynhyrchu gan y clerac ac wedi eu dosbarthu gan y Bachan Deche.</i> The forms have been produced by the clerk and distributed by the Handyperson.
159	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Taliad o gymorth ariannol tuag at Gae Chwarae Pentop.</i> Payment of financial assistance to the Pentop Play Area (£940)	<i>Mae'r taliad wedi ei dalu'n uniongyrchol i'r cyfrif banc.</i> The payment has been paid electronically to the bank account (see item 10[154])
160	CSC / CCC (Cath Ranson): <i>Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a pharatoi'r Cynllun Newydd.</i> Local Development Plan (LDP) Review and preparation of Replacement Plan. <i>Wedi ei flaenyrru/Forwarded to members on 2/11/17.</i>	<i>Mae Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion a'r Cytundeb Cyflenwi (drafft) ar gael i'w gweld yn Neuadd Cyngor Ceredigion.</i> Ceredigion's LDP Review Report and draft Delivery Agreement are available for inspection at Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron and on the website https://www.ceredigion.gov.uk/ldp
161	CSC / CCC (Catherine Morgan): <i>Adwaith o anghenion am ddatblygu Cae Chwarae Pentop.</i> Feedback on the draft consultation report based on the feedback on the requirements for Pentop Playing Field.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 19/10/17. <i>Cytunodd y Cyng. Miles gael prisiau am gyfarpar erbyn yr is-bwyllgorau nesaf.</i> Cllr Miles agreed to obtain quotations for equipment by the next sub-committee meeting.
162	CSC / CCC (Gwasanaethau Cyllid/Financial Services): <i>Ail randal Praesept 2017-18.</i> Second instalment of 2017-18 precept (£27,998.49)	<i>Mae'r taliad wedi ei dalu'n uniongyrchol i'r cyfrif banc.</i> The payment has been paid electronically to the bank account.
163	<i>Sioe Amaethyddol Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i'r cinio blynyddol.</i> Cardigan Agricultural Show: Invitation to the Mayor and Mayoress to the show dinner.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
164	Cymdeithas Gymraeg Trevelin, Patagonia: Pwyllgor Gefeillio Trevelin/Aberteifi: <i>Gwahoddiad i'r Dirprwy Faer i ddathliadau Cwm Hyfryd.</i> Invitation to the Deputy Mayor to attend the Cwm Hyfryd celebrations on 25/11/17.	<i>Mae'r Cyng. Adams-Lewis wedi derbyn y gwahoddiad.</i> <i>Mae cwmni Zurich wedi bodloni, gydag amodau, bod cadwyn y Dirprwy Faer yn cael teithio.</i> Cllr Adams-Lewis has accepted the invitation. Zurich have agreed to the Deputy Mayor's chain of office being taken with conditions. <i>Bydd y Cyng. Adams-Lewis yn talu ei ffordd ei hun.</i> Cllr Adams-Lewis will bear his own expenses.
165	Barony of Cemais: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu Seremoni Sefydlu'r Maer.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Installation at the Court Leet, 11/11/17.	<i>Bydd y Dirprwy Faer a'i briod yn mynychu'r seremoni.</i> The Deputy Mayor and Mrs Adams-Lewis will attend the ceremony.
166	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys Aberteifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu'r cinio blynyddol.</i> Cardigan Barley Saturday Show: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the annual dinner at the Cardigan Golf Club, 18/11/17, 7.00pm	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor.
167	Welch & Co.: <i>Ad-daliad / Repayment (£3.00) of Land Registry fee regarding Pentop Playing Field legal transaction.</i>	<i>Mae'r siec wedi ei thalu i'r cyfrif banc.</i> The cheque has been paid into the bank account.

168	Ms Teresa Kelly: <i>Yn pryderu am y fainc a symudwyd o Ffordd Aberystwyth.</i> Concerns regarding the removal of the bench located near Ceinder Haf, Aberystwyth Road.	<i>Mae'r clerc wedi blaenyrru'r neges i'r cyngor sir.</i> The clerk has forwarded the concerns to the county council technical services. The clerk was asked to pursue the matter with the officers.
169	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru: <i>Cyfes o sioeau teithiol.</i> Mid & West Wales Fire & Rescue Service: A series of road shows in the area.	<i>Mae posteri wedi eu harddangos yn yr hysbysfwrdd.</i> Posters have been displayed in the notice board.
170	Npower: <i>Cais am daliad oddi wrth berchennog Golwg y Castell am drydan.</i> Application for payment from the owner of Golwg y Castell for electricity covering the period of approx. 29/3/1996 to the present day.	<i>Mae'r clerc wedi anfon llythyr at y cwmni.</i> The clerk has forwarded a letter to the company requesting all details including copies of documents, plans, maps, etc. of the stated site and all technical details regarding the electricity supply to the communal area (18/10/17). Response received on 29/10/17. It was resolved that the clerk requests the meter number and precise location of the premises in question.
171	<i>Comisiwn Ffiniau i Gymru: Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Diwygiedig.</i> Boundary Commission for Wales: The 2018 Review of Parliamentary Constituencies in Wales – Revised Proposals.	<i>Mae'r adroddiad ar gael ar y safle we canlynol:</i> <i>The report is available at the following website:</i> www.bcomm-wales.gov.uk <i>Mae tudalennau 73 a 74 yn berthnasol i Aberteifi.</i> Pages 73-74 are of interest to Cardigan.
172	<i>Cyngor Cymuned y Ferwig: Mae'r cyngor yn caniatáu i'r Maer wisgo ei gadwyn yn y gymuned.</i> Ferwig Community Council: The council agrees to the request for the Mayor to wear his chain of office when visiting the community.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
173	Age Cymru Ceredigion: <i>Llythyr o ddiolch am y grant.</i> Letter of appreciation for the grant of £2,000.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
174	Yr Hoelion Wyth: <i>Gwahoddiad am awgrymiadau i leoli'r plac ac i'w dadorchuddio.</i> Invitation for suggestions to place plaque commemorating Jonathan Jones' achievements and nomination of public figure to unveil the plaque.	<i>Awgrymwyd lleoli'r llechen ar gei'r Tywysog Siarl ac i wahodd yr Aelod Seneddol i'w darorchuddio.</i> It was recommended that the slate be positioned at Prince Charles quay and that Ben Lake MP be invited to perform the unveiling.
175	Bro Teifi Tenants Association: <i>Cais am gymorth ariannol / Application for financial aid.</i>	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Grantiau mis Mawrth.</i> To be discussed at the March Grants Sub-committee.
176	<i>Cyngor Ar Bopeth / Citizens' Advice Bureau: Llythyr o ddiolch am y grant.</i> Letter of appreciation for the grant of £2,000.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
177	<i>Poppit Sands Surf Life Saving Club: Llythyr o ddiolch am y grant.</i> Letter of appreciation for the grant of £350.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
178	<i>Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro: Llythyr o ddiolch am y grant a gwahoddiad i un i'r Wyl.</i> Letter of appreciation for the grant and an invitation for one to the Festival, 11/11/17.	<i>Bydd y Cyng. Trystan Phillips yn rhinwedd ei swydd yn cynrychioli'r cyngor yn yr ŵyl.</i> Cllr Trystan Phillips in his official capacity will represent the council at the festival.
179	<i>Y Lottery Cenedlaethol / National Lottery Fund (Awards for All): Neges yn cadarnhau bod y cais wedi bod yn llwyddiannus.</i> Message confirming that the grant application for improvements to the Skateboard Park has been successful (£4,704)	<i>Nodwyd.</i> Noted.
180	<i>Adroddiad y Bachan Deche / Handyperson's Report (Hydref / October)</i>	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.
181	CSC / CCC (Peter Austin): <i>Adolygiad Harbwr / Harbour Review</i> <i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 7/11/17.	<i>Gweithdy: Aberteifi, 24/11/17, Neuadd y Dref, 9.00-11.00yb.</i> <i>Workshop: Cardigan, 24/11/17, Guildhall, 9.00-11.00am.</i>

Cath Ralson:	<i>Rheolwr y Gwasanaethau Cynllunio, Polisi ac Ymchwil / Planning Policy and Research Services Manager</i>
Cathryn Morgan:	<i>Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf / Families First Coordinator</i>
Eifion Evans:	<i>Prif Weithredwr / Chief Executive</i>
Louise Zerk:	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closures</i>
Mererid Jones:	<i>Ailgylchu / Recycling</i>
Peter Austin:	<i>Swyddog Datblygu / Development Officer</i>
Stephen Johnson:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service</i>

11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 17 Hydref.

Confirmation of 17 October Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Shan Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein bod cofnodion 17 Hydref yn gywir.

Cllr Shan Williams proposed that the 17 October minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Siân Maehrlein.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 1291 (*Prydlesau Cae Chwarae Brenin Siôr Sed*): Cytunwyd bod y clerc yn danfon y sylwadau ymlaen at y cyfreithiwr.

Tud. 1292 (*Pwyllgor Ymgynghorol Cae Chwarae Brenin Siôr Sed*): Cytunwyd bod y clerc yn gofyn am gyngor y Comisiwn Elusennau ynglŷn â swyddogion ac aelodau'r pwyllgor sydd yn ymddiriedolwyr.

Tud. 1292 (*Cadeiriau'r Cyngor*): Dywedodd y Cyng. Shan Williams bod cwmni 4CG wedi cytuno i storio'r cadeiriau ym Mhwlhai. Diolchwyd i'r cwmni am eu cymorth. Awgrymwyd bod y Bachan Deche yn eu symud o'r farchnad.

Tud. 1293 (*Ffair Brioude*): Dywedodd y Cyng. Catrin Miles bod ansicrwydd ynglŷn â dyddiadau'r Ffair yn parhau.

***Cae Chwarae Pentop*:** Cytunwyd bod y cyfrif terfynol am waith y contractwr ar y cae yn cael ei dalu wedi i'r Cyng. Miles a'r clerc craffu'r anfonebau. Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Debra Griffiths.

***Pwll Nofio Aberteifi*:** Adroddwyd gan y Cyng. Steffan Morgan bod goleuadau LED wedi eu gosod yn y safle ac maent yn foddhaol dros ben.

Page 1291 (King George 5th Playing Field leases): It was agreed that the clerk forwards the response to the solicitor.

Page 1292 (King George 5th Playing Field Advisory Committee): It was agreed that the clerk requests advice of the Charity Commission regarding the membership of trustees as committee members of the Advisory Committee.

Page 1292 (Council Chairs): Cllr Shan Williams stated that 4CG is prepared to store the chairs at Pwllhai. The company was thanked by members for their co-operation. The Handyperson will be kindly asked to remove the chairs from the market.

Pentop Playing Field: It was resolved that the final payment for the work on the field be paid pending scrutiny of invoices by Cllr Miles and the clerk. Proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Debra Griffiths.

Cardigan Swimming Pool: Cllr Steffan Morgan reported that the LED lights were now in place and proved a significant improvement.

12. Personél / Personnel.

Adolygiad blynyddol y Clerc / Clerk's annual review.

Mae'r holl gynghorwyr yn bles gyda gwaith y clerc.

Councillors are pleased with the clerk's care of council issues.

13. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

(a) **Y Cyng. / Cllr Clive Davies:**

- (i) **Grant Tesco: Mae cwmni 4CG wedi bod yn llwyddiannus i ennill grant tuag at Wythnos Ddinesig Aberteifi 2018 sydd yn cynnwys y Carnifal.**

Grant Tesco: 4CG has been successful in obtaining a Tesco grant for next year's Cardigan Civic Week incorporating the Carnival.

- (ii) **Dydd Sadwrn, 2 Rhagfyr: Cystadleuaeth am ffenestr siop orau'r Nadolig. Trafodir y gystadleuaeth eto yn yr is-bwyllgorau.**

Saturday, 2 December: Best dressed Christmas shop window. The matter of presentation will be discussed at the sub-committee meeting.

- (iii) **Gorymdaith y Lanternau, 8 Rhagfyr: Mae angen gwirfoddolwyr y cyngor i adeiladu lantern a hefyd stiwardiaid i'r noson. Awgrymodd y Cyng. Davies bod aelodau'r cyngor yn ymgynnull ar ddydd Sul, 26 Tachwedd o 11.00-4.00yp yn Theatr Byd Bychan i greu lantern.**

Lantern Parade, 8 December: Volunteers are invited to create a council lantern; stewards are also required for the evening's parade. Cllr Davies suggested that councillors assemble on Sunday, 26 November from 11.00-4.00pm to create a lantern.

- (iv) **Cyflwyno'r dibrifilwyr ddydd Wener, 17 Tachwedd (Neuadd y Dref a'r Fferyllydd, Pendre), 1.00yp. Bydd yr Aelod Seneddol Ben Lake yn bresennol.**

Presenting the defibrillators, Friday, 17 November (Guildhall and Pendre Chemist), 1.00pm. The Member of Parliament Ben Lake will be present.

(b) **Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein:**

- (i) **Arwyddion ffordd yn stad Maesglas.**

Road signs at Maesglas (near the Women's Refuge).

Cytunwyd i'r aelod lleol godi'r mater gyda'r cyngor sir.

It was agreed for the local member to raise the issue with the county council.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.21yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.21pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date